## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 9 Chwefror 2004

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 2 Chwefror 2005

**Y Ddadl Fer**

**NDM2287 Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Problem Yfed y Brifddinas

**NDM2289 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu gwaith Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu polisi drafnidiaeth integredig a chynaliadwy, a fydd yn cefnogi datblygiadau economaidd a chymdeithasol ac yn helpu pob rhan o Gymru i ffynnu.

**NDM2290 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant.

2. Yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'i phwerau a'i chyfrifoldebau i'r eithaf o ran lleihau tlodi plant yng Nghymru.

3. Yn cydnabod y meysydd a nodir yn yr adroddiad y mae angen gweithredu arnynt, o ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn San Steffan.

*Cafodd copïau o "Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi Plant" eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad ar 2 Chwefror 2005 a gellir gweld copi o Adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant drwy glicio ar y cyswllt isod:* http://www.wales.gov.uk/subichildren/content/child-poverty-e.htm

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 3 Chwefror 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2289**

**1. David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**2. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwallu anghenion Cymru o ran trafnidiaeth yn gyffredinol ac yn benodol i ymrwymo i ffordd fynediad effeithlon i'r maes awyr a chysylltiadau ffordd o'r gogledd i'r de.'

**3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynegi pryder am y gost o ddarparu Gwasanaethau Awyr Rheolaidd oddi mewn i Gymru'.

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Mesur Rheilffyrdd yn dirprwyo'r un awdurdod i Gynulliad Cymru ag y mae i Senedd yr Alban.

Gellir gweld y Mesur Rheilffyrdd drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200405/ldbills/022/2005022.htm

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais digonol ar wella trafnidiaeth gyhoeddus.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "Yn croesawu gwaith Llywodraeth" ac ychwanegu "Yn gresynu at ddiffyg cynnydd parhaus Llywodraeth Lafur"

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod pa mor araf yw'r gwasanaethau rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru ac yn

herio'r Gweinidog Trafnidiaeth i deithio o Gaerdydd i Fangor ar dren mewn llai na 3 awr cyn diwedd 2005"

**NDM2290**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd ymestyn pwerau'r Comisiynydd Plant i bob maes polisi yn cynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu: "Yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru"

a rhoi yn ei le: "Yn nodi gyda siom enw drwg Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth"

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn credu ei bod yn annerbyniol bod traean o blant Cymru yn byw mewn tlodi er gwaetha'r ffaith mai economi'r DU yw'r mwyaf ond tri yn y byd."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn credu bod Llafur Newydd wedi hen anghofio am yr egwyddor sosialaidd o ailddosbarthu cyfoeth."

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn galw ar Lywodraeth Llafur y Cynulliad i ddatblygu darpariaeth gofal plant ledled Cymru sy'n fforddiadwy, yn hygyrch ac yn hyblyg.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 04 Chwefror 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2290**

**1. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn canmol Llywodraeth Cynulliad Cymru am seilio'i strategaeth ar egwyddorion craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**2. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid adolygu adrannau 4.23 i 4.30 o'r Adroddiad, yn dilyn dyfarniad y Comisiynydd Plant fod yr arian a roddir, hyd yma, i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, yn "gwbl annigonol yn wyneb yr argyfwng sy'n parhau o ran darpariaeth." *

*Gellir gweld copi o Adroddiad Blynyddol (2003-04) Comisiynydd Plant Cymru, tud 34 yn:

http://www.childcom.org.uk/publications/Annual%20Report%2004%20-%20Cymraeg.pdf